

Datganiad sy'n dod â'r Parth Gwylidwriaeth sydd â'i ganolbwynt ar gyfeirnod grid SJ3356279128 i ben.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Milfeddygol bresenoldeb fflw adar pathogenig iawn ar safle yn Lloegr yn unol ag erthygl 28(3) o Orchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006¹ ("Y Gorchymyn").

Yn unol ag erthyglau 28(3), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, datganodd Gweinidogion Cymru Barth Gwylidwriaeth â'i ganolbwynt ar gyfeirnod grid SJ3356279128, a ddaeth i rym gyntaf am 18:00 ar 9 Chwefror 2025.

Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhau'r holl fesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Yn unol ag erthyglau 4 a 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwylidwriaeth hwnnw i ben.

Mae'r holl dermau yn y Datganiad hwn fel y'u diffinnir yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym o 13:30 ar 17 Mawrth 2025

Llofnodwyd: Richard Irvine, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 13:30 ar 17 Mawrth 2025

O dan awdurdod y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Mae copïau o'r Datganiad hwn a'r Gorchymyn ar gael ar [dudalennau gwe](#) Llywodraeth Cymru a chan Lywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

¹O.S. 2006/2927 (Cy. 262) (fel y'i diwygiwyd).